Newyddlen
Nadolig 2011
Am ddim

Taith Nadolig Sam Tân

Menter Iaith Sir Ddinbych
Yn Hyrwyddo'r Gymraeg yn Lleol
Promoting the Welsh Language Locally

NEWYDDLEN MENTER IAITH SIR DDINBYCH 2011

Menter Iaith Sir Ddinbych

Bu Sam Tân (gydag ychydig o gymorth gan Menter Iaith Sir Ddinbych, TWF, Mudiad Meithrin a Chynllun Iaith Rhuthun a Chorwen!) ar daith o gwmpas Cylchoedd Ti a Fi, meithrinfeydd a llyfrgelloedd Sir Ddinbych i dynnu sylw at fanteision dwyieithrwydd a dathlu twf a llwyddiant addysg gyfrwng Gymraeg yn y sir. Wythnos oedd hyd y daith, a'r bwriad oedd dod â phlant a rhieni at ei gilydd mewn sesiwn Stori a Chân yng nghwmni'r cymeriad poblogaidd o S4C. Bu Sam yn brysur iawn yn ymweld â Llyfrgell Rhuthun (yn ystod 'Amser TWF') a Meithrinfa Dydd Rhuthun ar ddydd Llun, Tachwedd 28ain. Wedyn aeth i Feithrinfa Dydd Corwen a Chylch Ti a Fi Betws G.G ar y 29ain cyn mynd ymlaen i gylchoedd meithrin Gellifor, Dinbych Uchaf a Henllan ar ddydd Iau'r 1af o Ragfyr. Y dasg olaf i Sam a'r criw oedd helpu cynnau goleuadau Nadolig tref Dinbych ar nos Wener yr 2il o Ragfyr tu allan i Neuadd y Dref. Roedd y daith yn llwyddiant ysgubol gan ddod â phlant a rhieni at ei gilydd i wneud gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd Geraint Lyall, Swyddog Datblygu Menter Iaith, bod "y plant wedi cynhyrfu yn lân wrth weld Sam Tân ac wedi mwynhau eu hunain yn enfawr. Roedd o hefyd yn gyfle da i'r rhieni ymuno yn y gweithgareddau, ac ar ôl yr ymateb positif a gafwyd bydd y daith yn siŵr o o gael ei chynnal eto y flwyddyn nesa."

CYMWEL 2 - Grant o £10,500 i'r Fenter!

Ddiwedd mis Tachwedd derbyniwyd y newyddion gwych bod y Fenter wedi llwyddo i ddenu nawdd gwerth dros £10,000 gan gronfa Cadwyn Clwyd er mwyn hybu'r sîn roc a phop yn lleol.Mae Cymwel 2 yn adeiladu ar lwyddiant ein prosiect peilot Cymwel 1. Bydd Cymwel 2 yn galluogi rhwng 10 a 15 o fandiau ifanc y sir gael hyfforddiant gan artistiaid proffesiynol ar gyfansoddi a chynhyrchu caneuon newydd ac yna eu recordio. Y tro hwn mae pwyslais cryf iawn ar helpu'r bandiau i aros gyda'i gilydd a chynnal eu diddordeb mewn perfformio trwy gynnig nifer o lwyfannau iddynt arddangos eu talent. Bydd bandiau'r prosiect yn cael y cyfle i berfformio yng Ngŵyl Ganol Haf Dinbych, Gŵyl y Ffin ac mewn tafarndai lleol. A hyn oll gyda golwg ar gefnogi'r economi leol. Mae'r Fenter felly ar hyn o bryd yn edrych am fandiau newydd a phrofiadol i fod yn rhan o'r prosiect. Os oes gennych ddiddordeb neu eisiau mwy o fanylion peidiwch ag oedi, cysylltwch â Geraint Lyall drwy e-bostio geallt@menteriaithdinbych.co.uk

Y Sirens - band a wnaeth elwa yn fawr o brosiect peilot Cymwel

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb o Fenter Iaith Sir Ddinbych. Edrychwn ymlaen at gydweithio gyda chi yn ystod 2012

Yn y rhifyn hwn:

Y Gruffalo	2	Dathlu Dydd Santes Dwynwen	4
Bws Ieuenctid	2	Cyfweliad Siôn Ifan	5
Eisteddfod Dinbych 2013	2	Digwyddiadau i Ddysgwyr	5
Taith Ysgolion	3	Newidiadau Staff	6
Clwb Clebran Cyffylliog	3	Eich Horosgôp Rhamant	Atodiad

Y GRUFFALO

Cafwyd diwrnod i'w gofio yn Ysgol Emmanuel, Y Rhyl, ar Dachwedd 9fed wrth i Siân Beca ddarllen stori'r Gruffalo i blant yr ysgol. Ar ôl gwrando ar y stori roedd cyfle i wylio DVD am stori'r Gruffalo. Roedd y plant wrth eu boddau yn gwrando a gwylio'r storïau ond uchafbwynt y diwrnod oedd ymddangosiad y Gruffalo ei hun! Trefnwyd y diwrnod ar y cyd â Chymunedau'n Gyntaf ac fe wnaeth tua 180 o rieni a phlant fynychu'r ddwy sesiwn. Roedd y digwyddiad wedi ei drefnu er mwyn hybu teuluoedd i ddarllen storïau gyda'i gilydd. Roedd yn gyfle da i ledaenu ein neges a thrafod ychydig ar fanteision dwyieithrwydd yng Nghymru heddiw. Mae llyfr y Gruffalo ar gael yn y Gymraeg ac yn y Saesneg. Dyma oedd gan Geraint Lyall, Swyddog Datblygu Menter Iaith, i ddweud am y diwrnod :

"Am ddigwyddiad arbennig. Mae pawb yn hoffi stori'r Gruffalo, ac roedd yn wych gweld y rheini a phlant yn dod at ei gilydd i fwynhau darllen. Cyfle gwych i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd i blant Ysgol Emmanuel."

BWS IEUENCTID

Y Bws Ieuenctid

Mae Menter Iaith Sir Ddinbych bellach yn gweithio ar y cyd â Bws Ieuenctid Gwasanaethau Ieuenctid y Cyngor Sir i ddarparu gweithgareddau ieuenctid i bobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig o fewn y sir.

Mae'r bws wedi bod yn ymweld â phentrefi Llandyrnog, Llanarmon yn Iâl a Threfnant. Mae nifer o gyfleusterau gwerthchweil ar y bws gan gynnwys Play Station 3, Nintendo Wii a 3 cyfrifiadur sydd wedi eu cysylltu â'r We.

Yn ogystal â chynnig y cyfle i bobl ifanc fwynhau drwy chwarae a sgwrsio ymysg ei gilydd mae nifer o weithgareddau yn digwydd ar y bws megis gwaith celf a gwaith addysgol am y byd o'n cwmpas. Mae'r bws hefyd yn gyfle i bobl ifanc dderbyn gwybodaeth a chyngor am y pethau sy'n gallu effeithio ar eu bywydau fel addysg ryw a bwlio. Ceir cyflwyniadau ar y pynciau hyn ar y bws o bryd i'w gilydd.

Mae'r Cyngor Sir wedi gofyn i'r Fenter gynorthwyo er mwyn gwneud yn siŵr bod elfen o dreftadaeth a diwylliant yn rhan o'r prosiectau yn ogystal â gadael i ddefnyddwyr y bws siarad eu dewis iaith.

Cefnogi Eisteddfod Sir Ddinbych 2013

Yn amlwg mae'r Fenter yn awyddus iawn i gefnogi Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych 2013 ym mhob ffordd bosibl. Rydym bob amser yn falch o dderbyn cyfraniadau gan y gymuned ar gyfer y Newyddlen hon ond byddwn yn arbennig o falch o hyn ymlaen i roi sylw i ddigwyddiadau i godi arian ar gyfer yr Eisteddfod.

Felly os ydych am gael hysbyseb am ddim i hyrwyddo achlysur neu ddigwyddiad cysylltwch â ni: 01745 812822 neu ymholiadau@menteriaithdinbych.co.uk

cyfieithu cymunedol
The Community Translating Company

cyfieithu ysgrifenedig

cyfieithu ar y pryd

prawfddarllen a golygu

cyrsiau cyfieithu

sesiynau gloywi iaith

www.cyfieithucymunedol.org
post@cyfieithucymunedol.org
01492 642 796

Taith Ysgolion

Yn ystod wythnos gyntaf o Dachwedd cynhaliwyd nifer o weithdai ar daith ysgolion o amgylch y sir er mwyn dathlu a chodi ymwybyddiaeth o Wythnos Ieuenctid Cymru. Ymwelwyd ag Ysgol Uwchradd y Rhyl, Ysgol Uwchradd Glan Clwyd, Ysgol Brynhyfryd, Ysgol Santes Ffraid, Ysgol Uwchradd Dinbych ag Ysgol Uwchradd Prestatyn.

Cynlluniwyd y daith ar y cyd â Gwasanaethau Ieuenctid y Sir a'r Urdd. Roedd y gweithdy yn gyfle i bobl ifanc leisio eu barn ar wahanol faterion wrth iddynt ateb cwestiynau. Roedd y cwestiynau yn gofyn i'r bobl ifanc ym mha ffordd y dylai hi fod yn bosib cysylltu â gweithwyr y mudiadau, lle a phryd roeddent yn defnyddio'r iaith Gymraeg a pha ddigwyddiadau cymdeithasol oeddent yn mwynhau. Dosbarthwyd gwybodaeth hefyd ynglŷn â'r cyfleoedd sydd ar gael i'r bobl ifanc hyn gymdeithasu yn y Gymraeg. Cafwyd noson wobrwyo'r wythnos ganlynol a chyflwynwyd tystysgrifau i'r bobl ifanc oedd wedi cydweithio â'r mudiadau ieuenctid yn ystod y flwyddyn.

Disgyblion Santes Ffraid, Dinbych yn pleidleisio gyda'u traed

Trafodaeth gyda disgyblion Ysgol Glan Clwyd Llanelwy

CLWB CLEBRAN CYFFYLLIOG

Bob nos Fercher ers diwedd Medi mae plant Ysgol Gynradd Cyffylliog wedi bod yn aros ar ôl ysgol er mwyn mynychu Clwb Cymraeg. Clwb ar y cyd rhwng yr ysgol, Menter Iaith Sir Ddinbych a'r Urdd ydy hwn. Mae'r plant wedi mwynhau gwneud llu o weithgareddau megis gemau Iaith, chwaraeon, gwaith celf, coginio, gemau bwrdd a Jenga! Mae'r clwb wedi ei sefydlu er mwyn cynorthwyo'r plant i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg. Dyma oedd gan yr ysgol i ddweud am y prosiect, "Mae Menter Iaith wedi ein helpu i sefydlu Clwb Clebran ar ôl ysgol sydd yn annog y plant i siarad y Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Mae'r plant wrth eu boddau yn y clwb ac yn awyddus i weld Gerallt yn dod yn ei ôl i weld pa gêm newydd sydd ganddo ar eu cyfer. Rydym yn ddiolchgar iawn o'ch amser a'ch cymorth."

Dyma rai sylwadau gan y plant:

" Rydw i'n mwynhau'r clwb efo Gerallt achos mae o'n gwneud lot o gemau da!" Dayna, Bl 4

"Rydw i'n meddwl bod o'n hwyl pan mae Gerallt yn dod i'r clwb. Dwi eisiau Gerallt ddod eto. Diolch!" Chloe , Bl 6

"Dwi yn mwynhau'r clwb achos mae'r gemau'n hwyl!" Rhian, Bl 4

Mae cynlluniau ar y gweill i gynnal clybiau tebyg yn Ysgolion Llandyrnog a Gellifor. Os ydych eisiau mwy o wybodaeth cysylltwch â Gerallt Lyall

geralltt@menteriaithdinbych.co.uk

Plant y clwb!

Gemau hwyliog ar yr iard!

Santes Dwynwen - Nawddsant Cariadon



Mae diwrnod y cariadon yn cael ei ddathlu yng Nghymru ar Ionawr 25ain, sef Dydd Santes Dwynwen, sy'n cyfateb i Ŵyl San Ffolant ar Chwefror 14eg. Yn ôl yr hanes, roedd Dwynwen yn byw yn y bumed ganrif yn un o ferched y brenin Brychan Brycheiniog. Mae sawl fersiwn o'r stori sy'n egluro sut y daeth Dwynwen yn nawddsant cariadon Cymru. Yn y fersiwn mwyaf cyffredin, syrthiodd Dwynwen mewn cariad â Maelon Dafodrill, ond yn anffodus roedd ei thad eisoes wedi trefnu iddi briodi â rhywun arall. Yn ei gynddaredd, treisiodd Maelon Dwynwen a'i gadael. Ffôdd Dwynwen i'r goedwig, lle gweddïodd ar i Dduw i'w rhyddhau o'i theimladau tuag at Maelon. Yna syrthiodd i gysgu. Yn ei chwsg dyma angel yn ymweld â Dwynwen ac yn rhoi diod arbennig iddi oedd yn gwneud iddi anghofio am Maelon a'i droi yn dalp o rew. Yna rhoes Duw dri dymuniad i Dwynwen. Yn gyntaf, gofynnodd am ddadmer Maelon, yn ail y byddai Duw yn ateb gobeithion a breuddwydion gwir gariadon, ac yn drydydd, na fyddai hi byth yn priodi. Gwireddwyd ei thri dymuniad ac i ddiolch am hynny, cysegrodd Dwynwen ei bywyd i Dduw gan fyw fel lleian ar ei phen ei hun ar Ynys Llanddwyn a sefydlu eglwys yno. Ystyr Llanddwyn ydy Llan + Dwyn sef Eglwys y Sant, neu Santes, Dwyn neu Dwynwen. Mae olion yr eglwys i'w gweld ar yr ynys hyd heddiw. Daeth yr eglwys a'r ffynnon gerllaw yn fan pererindota a thros y blynyddoedd bu pobl yn ymweld â'r ffynnon er mwyn cael eu hiacháu.

Pa fath o gariad ydych chi?!
Gweler ein Horosgôp Rhamant Santes Dwynwen - atodol i'r Newyddlen hon.

Cymorth a chyngor am ddim i bobl, mudiadau a busnesau ar gynyddu ac ehangu'r defnydd o'r iaith Gymraeg ymhob agwedd ar fywyd yn Sir Ddinbych

Cysylltwch â ni 01745 812822 ymholiadau@menteriaithdinbych.co.uk

Menter Iaith Sir Ddinbych
Yn Hyrwyddo'r Gymraeg yn Lleol
Promoting the Welsh Language Locally

Disgo Santes Dwynwen

25/01/12

5.30pm - 8.30pm

Sinema'r Scala, Prestatyn

Ar gyfer plant oedran 9 i 12

Cyhoeddir canlyniad cystadleuaeth

Cardiau Santes Dwynwen y Fenter ar y noson.

2 docyn Sinema i'r enillydd

Cyfweliad â Siôn Ifan

O Ddryslwyn yng Nghaerfyrddin y daw Siôn Ifan. Mi astudiodd Cymraeg a Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd ac yna aeth ymlaen i ddilyn cwrs Meistr mewn actio yn y Coleg Cerdd a Drama.

Mae Siôn wedi ymddangos ar ein teledu mewn amryw o raglenni ar S4C megis 'Con Passionate', 'Pen Talar', 'Cyw' a 'Zanzibar'. Ar hyn o bryd mae Siôn yn rhan o gast 'Deffro'r Gwanwyn' (Theatr Genedlaethol Cymru) sydd ar daith o amgylch Cymru

Beth wyt ti'n ei wneud nawr?

Fi ar hyn o bryd yn teithio gyda Theatr Genedlaethol Cymru yn gwneud sioe gerdd o'r enw Deffro'r Gwanwyn.

Oes 'na rywbeth ar y gweill gennyt yn y flwyddyn newydd?

Does dim byd 'da fi ar hyn o bryd!!

Yn dy farn di, pa fanteision ac anfanteision sydd i actor sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg?

Mae yna gymaint o fanteision fel actor os ti'n gallu siarad Cymraeg. Fydden i heb gael unrhyw brofiad proffesiynol bron petawn ni'n methu siarad Cymraeg. Mae llawer o bobl yn gallu bod yn rhagfarnllyd am y Gymraeg a llawer o actorion yn penderfynu peidio gweithio yn y Gymraeg ond dwi'n gweld e yn fanteisiol dros ben.

Pa mor aml wyt ti'n defnyddio'r Gymraeg yn dy fywyd cymdeithasol? Ydi'r Gymraeg yn bwynt canolog yn dy fywyd? (teulu, eisteddfodau a.y.b.

Rwy'n defnyddio'r Gymraeg bron bob dydd fydden i'n dweud ac yn cymdeithasu rhan fwyaf o'r amser drwy gyfrwng y Gymraeg. Fydden i'n dweud ei bod yn bwynt canolog iawn yn fy mywyd teuluol hefyd.

Pa fath o effaith mae'r iaith Gymraeg wedi cael ar dy yrfa hyd yn hyn?

Mae'r iaith Gymraeg wedi cael effaith fawr iawn ar fy ngyrfa cyn belled. Tasan i ddim yn siarad Cymraeg sai'n meddwl fydden i wedi gweithio o gwbl ers gadael Coleg.

Wyt ti'n mwynhau gweithio drwy'r Gymraeg?

Ydw. Dwi'n gweithio fwyaf cyfforddus drwy gyfrwng y Gymraeg er na fydden i'n meindio gweithio yn Saesneg ychwaith.

Digwyddiadau i ddysgwyr yn Sir Ddinbych
Events for Welsh learners in Denbighshire

CYMRAEG I OEDOLION
WELSH FOR ADULTS
Canolfan Gogledd Cymru
North Wales Centre

Be? **What?**	**Lle?** **Where?**	**Pryd?** **When?**
Llanllawen: Carolau Nadolig gyda Nick / *Christmas Carols with Nick*	Awelon, Rhuthun	7.00pm 07.12.11 Nos Fercher / Wednesday night
Llanllawen: Cinio Nadolig / *Christmas Dinner*	Vale Country Club, Rhuthun	7.30pm 14.12.11 Nos Fercher / Wednesday night
Noson Sgrabl / *Scrabble Night*	Tafarn y Dderwen, Glyn Ceiriog	7.30pm yn cyfarfod ar y trydydd nos Iau o bob mis / *7.30pm every third Thursday of every month*
Clwb Celf a Chrefft / *Arts and Crafts Club*	Canolfan Fowlio Gogledd Cymru, *North Wales Bowling Centre,* Prestatyn	2 o'r gloch pob Dydd Mercher / *2.00 o'clock onwards every Wednesday*
Bore Coffi: dewch i ymarfer eich Cymraeg gyda phaned a sgwrs a llawer o hwyl!! / *Coffee Morning: Come and practise your Welsh with a cuppa, chat and lots of fun!!!*	Canolfan Fowlio Gogledd Cymru / *North Wales Bowling Centre*, Prestatyn	12 o'r gloch bob dydd Mercher / *12 o'clock every Wednesday*

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â / For further Information, contact:
SIWAN HYWEL siwan.hywel@bangor.ac.uk 01248 388248 / 07795427171

Croesawu Aelod Newydd o Staff i'r Fenter

Hoffai Menter Iaith Sir Ddinbych groesawu aelod newydd i'r tîm, sef Osian Edwards, sy wedi dechrau gyda ni'n ddiweddar fel Swyddog Maes a Datblygu.

Osian Edwards yw fy enw a chefais fy ngeni yn Llanelwy a'm magu yn Rhuthun. Derbyniais fy addysg gynradd yn Ysgol Penbarras ac yna fe symudais ymlaen i Ysgol Brynhyfryd ar gyfer fy addysg uwchradd. Wedi fy nghyfnod yn yr ysgol, cefais fy nerbyn i astudio cwrs Hyfforddi Busnes ym Mhrifysgol Aberystwyth. Dwi'n edrych ymlaen at godi ymwybyddiaeth pobl ifanc yr ardal a thynnu eu sylw at werth a phwysigrwydd yr iaith Gymraeg.

Dwi adref yn Rhuthun ers mis erbyn hyn ar ôl bod yn teithio ac yn gweithio yn yr UDA am bedwar mis. Mwynheais y profiad o gyfarfod pobl ddieithr a gweld ardaloedd newydd yn fawr iawn. Ar ôl gweithio yn nhiriogaeth frodorol yr Indiaid ym Montana a sylwi sut mae'r iaith, cymuned, a diwylliant y wlad wedi gwanhau yn enbyd, dwi'n gwerthfawrogi fod sefyllfa'r iaith a'r diwylliant yng Nghymru yn dal eu tir yn gryf ac edrychaf ymlaen yn frwdfrydig i gyfrannu ac i weld hyn yn parhau.

Yn f'amser rhydd, dwi'n mwynhau pob math o chwaraeon a dwi'n aelod brwd o dîm criced Rhuthun. Dwi wrth fy modd yn cymdeithasu gyda fy ffrindiau ac yn awyddus iawn i gyd-weithio gyda'r gymuned leol i hybu'r Gymraeg yn Sir Ddinbych. Dwi'n edrych ymlaen yn fawr i fedru cynllunio a gweithio ar brosiectau gwahanol yn y dyfodol. Peidiwch ag oedi i gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau neu syniadau ynglŷn â phrosiectau yn y gymuned.

Gellwch wneud hyn drwy alw i'r swyddfa yn Adeilad Deiamwnt, 6 Heigad, Dinbych; roi galwad ar 01745812822 neu drwy fy e-bostio ar osian@menteriaithdinbych.co.uk

Hoffai'r fenter hefyd ddiolch i Catrin Morris a Heledd Morgan am eu cyfraniad gwerthfawr yn ystod eu cyfnod o 6 mis gyda'r Fenter drwy brosiect Swyddi'r Dyfodol.

Rydym bob amser yn croesawu cyfraniadau gan y gymuned. Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cyfrannu at y rhifyn hwn drwy gysylltu â'r swyddfa:

Menter Iaith Sir Ddinbych

Adeilad Deiamwnt, 6 Heigad,

Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 3LE

01745 812822

ymholiadau@menteriaithdinbych.co.uk



Does unlle tebyg i...
Nant Gwrtheyrn - dewch i'n gweld...

- Y lle delfrydol i ddysgu Cymraeg
- Bythynnod hunan-arlwyol
- Priodasau
- Cynadleddau a Digwyddiadau
- Caffi
- Canolfan Treftadaeth a Bwthyn Y Chwarelwr

01758 750334
post@nantgwrtheyrn.org
www.nantgwrtheyrn.org
nant gwrtheyrn

Cyfreithwyr Arbenigol yng Nghalon y Gymuned

Cwmni lleol sydd â'r gallu â'r arbenigedd i ddarparu cyngor cyfreithiol heb ei ail

Cyfreithwyr
Swayne Johnson

Am broffesiynoldeb digyfaddawd ymroddiad diflino a gwasanaeth diguro

Rhad ffôn: 0800 328 9631
www.swaynejohnson.com

Rhuthun ~ Dinbych ~ Llanelwy ~ Llandudno

BWRDD YR IAITH GYMRAEG · WELSH LANGUAGE BOARD

Cydnabyddir nawdd Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r rhifyn hwn.

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government